Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

## TÎM RHEOLI DATBLYGU A CHYDYMFFURFIO

## PROTOCOL PANEL ARCHWILIO SAFLE

Mae'r protocol hwn yn nodi'r ffordd y dylai ymweliadau safle ddigwydd.

---

1. Diben y paneli archwilio safle

1.1. Galluogi panel o Aelodau a chynrychiolydd Cyngor Tref / Cymuned i archwilio cais cynllunio yng nghyd-destun ymweliad safle cyn ystyriaeth yn y Pwyllgor Cynllunio, lle na all gwybodaeth, neu le na fyddai gwybodaeth yn debygol o gael ei chasglu o adroddiad Pwyllgor y Swyddog Cynllunio, a gwybodaeth ategol, gan gynnwys arddangosfeydd gweledol y Pwyllgor.

1.2. Diben Paneli Archwilio Safle yw casglu ffeithiau yn unig, nid oes ganddynt bwerau i wneud unrhyw benderfyniad ac ni fyddant yn gwneud unrhyw argymhelliad i'r Pwyllgor Cynllunio ar gais.

2. Penodi paneli archwilio safle

2.1. Mae unrhyw Aelod o'r Cyngor Sir a Chadeirydd y Pwyllgor â’r grym i ofyn i Banel Archwilio Safle ymweld â safle sy'n destun adroddiad ar y rhaglen, i'w benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio.

2.2. Bydd gofyn i Aelodau roi arwydd clir yn ysgrifenedig (e-bost neu lythyr) o'r seiliau cynllunio dros ofyn am Banel Archwilio Safle, ym mhob achos.

2.3. Fel arfer, bydd Paneli Archwilio Safle yn cael eu cynnal ar ddydd Iau neu ddydd Gwener yn yr wythnos yn union cyn y dydd Mercher y mae'r Pwyllgor Cynllunio yn cyfarfod ac yn ystyried cais.

3. Cyfansoddiad y paneli archwilio safle

3.1. Bydd yr aelodaeth yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ynghyd ag Aelod(au) Lleol ar gyfer rhanbarth etholiadol safle'r cais, cynrychiolydd o bob grŵp gwleidyddol, a chynrychiolydd o'r Cyngor Tref / Cymuned lleol. Mewn amgylchiadau eithriadol, a chyda cytundeb y Cadeirydd, gellir

anfon gwahoddiadau at bob Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a'r Aelod(au) Lleol.

3.2. Fel arfer, bydd Swyddog Achos Adain Gynllunio, y Rheolwr Datblygu neu'r Pen Swyddog Cynllunio'n bresennol mewn cyfarfod panel Archwilio Safle. Efallai y gofynnir i Swyddogion eraill fod yn bresennol lle bydd angen cyngor arbenigol ar eitem.

3.3. Mewn amgylchiadau lle nad yw'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd neu'r Aelod(au) Lleol yn gallu bod yn bresennol, neu lle mae gwrthdaro buddiannau, gall ef / hi enwebu Aelod arall i fod yn bresennol gyda chytundeb y Cadeirydd.

4. Gweithdrefnau i'w dilyn wrth benodi paneli archwilio safle cyn y pwyllgor

4.1. Fel arfer, bydd Paneli Archwilio Safle yn cael eu penodi cyn y Pwyllgor Cynllunio yr ystyrir y cais.

4.2. Dylai cais am Banel Archwilio Safle gael ei wneud trwy e-bost neu lythyr gan Aelod i'r Rheolwr Datblygu a'r Rheolwr Tîm Cefnogi o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer Paneli Archwilio Safle h.y. erbyn diwedd y dydd Gwener yr wythnos cyn y gwneir yr archwiliadau safle ar y dydd Gwener canlynol. Dylai cais ddod ar ôl cyhoeddi'r rhestr o eitemau posibl ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio a ddosberthir 3 wythnos cyn y Pwyllgor, neu'r mynegai gwirioneddol o eitemau ar y Pwyllgor a ddosbarthwyd ar y dydd Gwener 10 diwrnod gwaith cyn y Pwyllgor.

4.3. Dylai unrhyw gais am banel Archwiliad Safle gynnwys sail gynllunio glir ar gyfer cynnal cyfarfod.

4.4. Bydd y Rheolwr Datblygu yn ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio cyn y gwneir penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen ag ymweliad safle.

4.5. Bydd yr Aelod sy'n gofyn am gyfarfod Panel Archwilio Safle yn cael gwybod am y penderfyniad yn (4.4) a'r rhesymau.

4.6. Bydd swyddogion yn gwneud y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y Panel Archwilio Safle a bydd yn rhoi gwybod i'r Aelodau yn unol â hynny.

5. Gweithdrefnau mewn cyfarfodydd panel archwilio safle

5.1. Bydd yr Archwiliad Safle yn cychwyn ar yr amser penodedig.

5.2. Os yw Cadeirydd y Pwyllgor yn absennol, dylai'r Aelodau gytuno ar y Cadeirydd dros dro (caiff hwn fod yr Is-gadeirydd os yw'n bresennol).

5.3. Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod yn ffurfiol.

5.4. Bydd y Swyddog Cynllunio yn cael ei wahodd i amlinellu'r cais a'r prif faterion ac awgrymu a oes nodweddion penodol y dylai Aelodau arsylwi arno, gan ystyried y rhesymau dros benodi'r panel. Bydd y Swyddog yn cynghori'r Panel a allai fod yn briodol gweld y cynnig o dir /eiddo cyfagos ac unrhyw geisiadau gan ddeiliaid cyfagos i weld y safle oddi ar eu tir / eiddo nhw.

5.5. Bydd y Panel Archwilio Safle yn edrych ar y safle, yr adeiladau perthnasol a'r ardal gyfagos yn ôl yr angen.

5.6. Bydd yr Aelodau yn cael y cyfle i holi cwestiynau neu ofyn am eglurhad o bwyntiau o ffeithiau gyda'r Swyddog Cynllunio a/neu aelod(au) lleol a/neu gynrychiolydd y Cyngor Tref/Cymuned.

5.7. Bydd yr Aelod(au) Lleol a chynrychiolydd o'r Cyngor Tref/Cymuned yn cael y cyfle i roi sylwadau ar y cynnig.

5.8. Bydd Aelodau o'r Panel Archwilio Safle yn cael y cyfle i roi sylwadau ar y cynnig ac i drafod materion.

5.9. Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi’n ffurfiol pan fydd y cyfarfod wedi dod i ben.

5.10. Bydd y Swyddog Cynllunio yn gyfrifol am baratoi nodyn ffeithiol byr o’r cyfarfod i'w gynnwys yn y taflenni sylwadau hwyr i'w cylchredeg yn y Pwyllgor. Bydd y nodiadau hyn yn cynnwys y rhesymau dros benodi'r panel, cofnod o'r rhai sy'n bresennol, ac amlinelliad o'r hyn a welwyd ac a ystyriwyd. Ni fydd unrhyw farn yn cael eu mynegi ar rinweddau'r cais yn y nodiadau.

5.11. **Aelodau eraill –** Mae Aelodau ar wahân i'r rhai a benodwyd ar y Panel Archwilio Safle yn cael caniatâd i fynychu Panel Archwilio Safle fel arsylwyr, ond ni chaniateir iddynt siarad.

5.12. **Y Cyhoedd / Ymgeiswyr / Asiantau –** Ni chaiff unrhyw aelod o'r cyhoedd, ymgeiswyr neu eu hasiantau, gael caniatâd i fod yn bresennol, i annerch neu arsylwi unrhyw gyfarfod o’r Panel Archwilio Safle. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle bo angen i Banel Archwilio Safle arolygu / fynd i adeiladau neu dir ym mhresenoldeb y perchennog / ymgeisydd / deiliad cyfagos, bydd y person hwnnw yn cael eu cynghori ar gychwyn y cyfarfod nad yw ef / hi yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw weithdrefn yn y cyfarfod, ac eithrio i ateb unrhyw gwestiynau ffeithiol a roddir i’r Cadeirydd. Gofynnir i'r perchennog / ymgeisydd / deiliad cyfagos adael presenoldeb y Panel Archwilio Safle cyn unrhyw sylwadau neu ddadl ar gynnig.

5.13. **Lletygarwch -** Ni ddylai Aelodau o’r Panel Archwilio Safle

dderbyn unrhyw fath o letygarwch yr ystyrir iddo ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.

5.14. **Iechyd a Diogelwch -** Disgwylir i Aelodau gydymffurfio â rheolau a rheoliadau cyffredinol safle a threfniadau iechyd a diogelwch ar bob ymweliad â safle. Gall hyn gynnwys gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol a bydd trefniadau'n cael eu gwneud i sicrhau bod offer Cyfarpar Diogelu Personol yn cael eu rhoi lle bo hynny'n briodol. Y Cadeirydd (neu ei ddirprwy enwebedig) a fydd yn penderfynu a yw unrhyw Aelod o'r Panel Archwilio Safle yn rhoi eu hunain mewn perygl oherwydd eu hiechyd neu gyflwr corfforol, gan gymryd cyngor y Swyddog i ystyriaeth.

5.15. Mewn perthynas ag unrhyw faterion gweithdrefnol sy'n codi mewn perthynas â threfniadaeth neu ymddygiad Panel Archwilio Safle nad ydynt yn dod o dan y protocol hwn, y Cadeirydd sydd i benderfynu ar y camau i'w cymryd (neu'r Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd) mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Datblygu neu Ben Swyddog Cynllunio perthnasol.